



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg
13 Chwefror 2020
Yr Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Yn y rownd hon, cafwyd pedwar ymgeisydd; dau yn y Groeslon a dau yng Nghaerdydd.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1:

Cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Cymreig oedd hwn, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ym mis Mehefin 2019, pan oedd y Pwyllgor ar daith o amgylch Cymru'n cymryd tystiolaeth am y Bargeinion Dinesig a Thwfi. Darparwyd gwybodaeth gefndir gynhwysfawr i'r ymgeiswyr ar ffurf papur briffio ynghyd ag enwau'r tystion fyddai'n siarad. Rhoddwyd hefyd amryw o'r symiau ariannol fyddai'n cael eu trafod. Roedd un o'r tri thyst yn ddi-Gymraeg a rhoddwyd cyfarwyddyd clir i'r ymgeiswyr beidio â chyfieithu yn ystod y rhan hon o'r sgwrs.

Darn 2:

Darn cyferbyniol oedd hwn yn ôl yr arfer lle cafwyd sgwrs rhwng dau unigolyn. Sgwrs gymharol ysgafn oedd hon gyda Manon Wyn Williams yn holi Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru am y ddrama 'Chwalfa'. Unwaith eto, darparwyd gwybodaeth gefndir am y Cyfarwyddwr a'r syniad gwreiddiol am y cynhyrchiad er na roddwyd enwau dau gyfarwyddwr gafodd eu crybwyll yn y darn, sef William R Lewis a Graham Laker.

Darnau oedd y rhain a ddarparai brawf addas i gyfieithydd oedd yn gyfforddus yn arfer ei grefft a darnau fyddai'n rhoi cyfle i ddangos ehangder ei ddawn. Roedd y darn cyntaf yn fwy ffurfiol ei natur oherwydd trefn sesiynau cymryd tystiolaeth (er bod naws gyfarwydd ac ysgafn i lawer o'r trafod) ac yn yr ail ddarn, natur lawer mwy sgwrsiol a gafwyd.

SAFON Y CEISIADAU

Gwelwyd nifer o enghreifftiau da o gyfieithu llyfn, idiomatig, naturiol a chywir er y nodwyd rhai pethau a faglodd fwy nag un ymgeisydd. Mae hyn yn awgrymu (ni waeth beth oedd canlyniad terfynol y Prawf CAP), y byddai parhau i ymarfer a gwrando ar eich llais a'ch cywirdeb eich hun wrth gyfieithu ar y pryd o gymorth mawr wrth fagu profiad pellach.

GEIRFA

Roedd yr wybodaeth gefndir wedi amlygu llawer o'r termau fyddai'n codi yn y darnau, gan gynnwys yn eu plith:

Bargen Twf Gogledd Cymru – North Wales Growth Deal

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – North Wales Economic Ambition Board

Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy – North Wales Mersey Dee Business Council

Canolfan Gelfyddydau Pontio – Pontio Arts Centre

y Llechfaen dychmygol – the fictional village of Llechfaen

addasiad llwyfan – stage adaptation

pruddglwyfus – melancholic

Streic Fawr Chwarel y Penrhyn – The Great Strike of Penrhyn Quarry

Cafwyd rhai enghreifftiau o gamgyfieithu pethau syml (a rhai pethau oedd wedi'u nodi yng ngeirfa'r nodyn briffio):

Cadeirydd Siambr Fusnes Glannau Dyfrdwy – Chair of the Business in Deeside / Deeside Business Chamber / Chair of the Business Committee / Chair of the Business Council (neb wedi cael hwn yn gywir)

Theatr Genedlaethol Cymru – National Theatre of Wales

Gweinidog – Secretary

dicter – not satisfied

swm sylweddol llai [sic] – slightly less

reit, eitha – very

canllaw – handrail

addasiad – adaption

Cyn-arwerthwr – former tradesman

Roedd yn gwbl amlwg bod pob un o'r ymgeiswyr wedi deall ystyr y darnau, ond amrywiol oedd eu gallu i gyfleu'n glir ac yn ramadegol gywir yn union beth oedd dan sylw. Rhwystredigaeth wrth asesu oedd gwybod bod y ddealltwriaeth yn gadarn, ond bod gwendid wrth gyfathrebu hynny'n ddigon graenus yn y Saesneg. Yn sgil rhai o'r llythrennau, cafwyd trosiadau anniben a thrwsogl a bylchau anffodus.

Roedd tuedd ymysg yr ymgeiswyr i gyfieithu'n llythrennol mewn manau, e.e.

Da ni jyst isho mynd yn ôl gyda cymaint o gwybodaeth – We want to go back with [take back]

Dwi'n gobeithio bod Ashley yn clwad popeth – we hope that Ashley hears everything clearly [can hear]

Ac mi oedd na, naturiol, groeso i'r ffaith – There was a welcome for the fact/to the fact/of that announcement/ [The fact the announcement was made was welcomed]

Mae'n debyg bod rhywun yn ymwybodol – someone was aware [one]

Yn syth o'r coleg drama – straight out of the drama college [dim angen y 'the']

...rydych wedi bod yn rhan ohonynt – that you've been part of them [been part of – y 'them' sy'n ddiangen]

DEALL, DEHONGLI A CHYWIRDEB

Fel y nodwyd eisoes, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn ddealladwy i'r ymgeiswyr ond cymysg oedd y gallu i drosi hyn yn ramadegol gywir er mwyn i'r gwrandawyr ddeall. Gwelwyd dau begwn yma mewn ambell i achos rhwng deall yn llawn a'r gallu i sicrhau cywirdeb i gyd-fynd â hynny.

Amrywiol hefyd oedd gallu'r ymgeiswyr i 'gywiro' neu 'fireinio' eu brawddegau wrth fynd i unioni'r llif lle gellid bod wedi achub yr ymgais yn weddol hawdd, e.e.

Since a long time – byddai'n hawdd tacluso hyn drwy ychwanegu '...ago'.

in the north – rhy benagored fel y mae ond byddai ychwanegu 'of Wales' er mwyn cyfleu'n glir ac achub y frawddeg, hyd yn oed ar ôl dweud y 'the'.

an adaptation of John Ogwen – byddai ychwanegu 's' – 'an adaptation of John Ogwen's' (neu 'by John Ogwen' yn dibynnu faint sydd wedi'i ddweud).

unreachable – cafwyd 'unreachable, unattainable even' gan un ymgeisydd a awgrymodd fod ffordd well a modd o'i newid heb amharu ar y cywirdeb na phrofiad y gwrandawr.

CYSTRAWEN, CYWAIR AC IDIOM

Hwn yw'r maes sy'n peri'r lletchwithdod mwyaf o safbwynt y sawl sy'n gwrandao bron yn ddieithriad. Sicrhau bod y cyfieithiad yn swnio fel cyflwyniad naturiol a gwreiddiol yw'r nod, lle mae cystrawennu'n raenus yn coroni ymgais gadarn.

Enghreifftiau o gyfieithu cadarnhaol:

Very straightforward job

To use my son's colloquialism, 'random'

Sombre note/melancholic note (yn y nodiadau)

I relished the challenge

The fictional village of Llechfaen (yn y nodiadau)

The light-hearted as well as the heavy subjects

An entire novel

No prior warning was given

That's how it works, apparently

Don't want to go over old ground / reiterate things

A new outlook on the work

Condense / make concise

Of late

Flock to Pontio

Capitalise on (manteisio)

Put a different slant on it / gave it a new outlook / a new look

Found its roots (dod i sgidia)

Pethau cymharol hawdd yn ramadegol y dylid bod wedi'u hosgoi oedd rhai o'r llithriadau:

The implications of this is...

...the announcement was make

neither was there no agenda
in the piece he's wrote
how was that 120 was arrived at
I've in my naivety didn't understand
14 projects is based on
Elen ap Robert and I was discussing
Meysydd lle gwelwyd amrywiaeth:

Gwreiddiol	< Cynigion a gafwyd o'r gwannaf i'r cryfaf >	
Marchogaeth	Can horseback / sit the back behind/	ride on the back of the chair so to speak/piggyback on the chair (Gwell heb yr 'on')
Is-weinidog	Vice-Minister	Deputy Minister
Swyddfa Cymru	Welsh Office	Wales Office
Gyda'r ddwy lywodraeth	With the 2 governments	With both governments
Mae'n debyg	It's likely	It appears / it seems
Cais	Application	Bid/request
Cyn-	Ex-	Former
Ysgrifennydd	Minister	Secretary
Dicter	Ill-will	Anger
Cyflwyniad	Presentation	Introduction / foreword
Dyddiaduro	Dated / timetabled	Diarised (neb wedi cael hwn)
Cyfiawnhad	Confirmation	Justification
Rhewi	Freeze	Suspend / suspension
Rhag-	Pre-	Fore-
Arwydd	Sign	Indication
O Law i Law	Llaw yn Llaw Side by Side	O Law i Law
Nodedig	Notifiable	Notable / remarkable
Tyrru yma	Crowd	Flock
Chwaith	Not either	Neither
Rhoi'r hanesion ar lwyfan	Give the histories on stage	Stage the stories / tales

ARDDULL A CHYFLWYNIAD TECHNEGOL

Noder pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng siaradwyr. Mae cymryd saib am eiliad yn hollbwysig, er mwyn bod yn glir. Gwelwyd hyn i wahanol raddau ym mhob ymgais. Gwelwyd pwyslais a newid goslef ar ran y cyfieithydd i gyd-fynd â'r siaradwr i raddau helaeth, ond yn y gwannaf collwyd y cyfle i efelychu gwir naws a theimladau'r gwreiddiol.

Ar y cyfan, gwelwyd lefelau da o stamina er bod ambell i fan lle roedd y cyfieithydd braidd ar ei hôl hi, gan roi'r gwrandawyr o dan anfantais.

Roedd y cynigion lle addaswyd tôn y llais yn gwneud y profiad gwrandao yn fwy pleserus o lawer.

Pwysig mireinio'r gallu i ynganu'n gywir mewn ambell i achos – 'Mayals' yn lle 'Miles', 'Linkum' yn lle 'Laker'.

I gloi, pwysleisir y canlynol:

- Defnyddio unrhyw nodiadau a ddarperir ymlaen llaw – maen nhw yna er mwyn bod yn gymorth.
- Peidio â chyfieithu'n rhy llythrennol. Meddylwch am y ffordd fwyaf naturiol a gramadegol gywir yn Saesneg.
- Os oes angen newid gair wrth fynd er mwyn gwella neu egluro'r pwynt, mae hynny'n dderbyniol.
- Gadael saib rhwng siaradwyr i'w gwneud yn glir bod rhywun newydd yn cyfrannu.
- Cofio bod sawl ystyr i rai geiriau a'i bod yn bwysig ystyried y cyd-destun.
- Mae defnyddio'r modd dibynnol yn Saesneg yn cyfleu cywirdeb, *It was important that we introduce* (nid *introduced*); *It was important that we choose* (nid *chose*, hyd yn oed wrth drafod y gorffennol).
- Pwysig cyfleu amser y ferf yn gywir, *but that doesn't happen* (*didn't*)
- Gwrandao'n astud am enwau unigolion (Mims Davies, Elen ap Robert, William R Lewis, Graham Laker)

Y CANLYNIAD

Dyfarnwyd bod dau o'r pedwar ymgeisydd yn llwyddo'r tro hwn.

DIOLCHIADAU

Diolch arbennig i'r aseswyr am eu gwaith trylwyr a chraff ac i'r Prif Arholwr a staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru am roi'r trefniadau yn eu lle er mwyn i'r broses lifo'n ddidrafferth unwaith eto. Hyd yn oed yn y sefyllfa anarferol sydd ohoni, llwyddwyd i newid y trefniadau cyfathrebu ar y funud olaf i sicrhau bod y broses yn cadw at ei hamserlen fwriadedig. Diolch i bob un.